

PHYLIP, teulu, 'PHYLIPIAD ARDUDWY', beirdd

Teulu o feirdd yn byw yn Ardudwy, Sir Feirionnydd, yn y 16eg a'r 17eg ganrif. Ymestyn eu cyfnod o c. 1543, a awgrymir yn flwyddyn geni Siôn Phylip, hyd 1678, pryd y profwyd ewyllys Phylip Siôn Phylip, un o'i feibion. Yr oedd y brodyr Siôn a Rhisiart, a'r brodyr Gruffydd a Phylip Siôn, yn canu yn y mesurau caethion, gan mwyaf, ac y mae digon yn eu gweithiau i dystio bod Siôn, Rhisiart, a Gruffydd yn glerwyr; yn y mesurau rhydd y canodd William Phylip gan mwyaf, ac nid oedd ef yn clera. Canodd Siôn, a'i fab Gruffydd ar ei ôl, lawer i [Fychaniaid Corsygedol](#), ac yr oedd Rhisiart yn fardd teulu [Fychaniaid Nannau](#). Eithr nid i deuluoedd Sir Feirionnydd yn unig y canai'r tri bardd; nid oes ond ychydig deuluoedd yng ngogledd-orllewin Cymru na chanasant iddynt. Bu i bob un o'r tri athro barddol a 'graddiodd' Siôn yn ail eisteddfod Caerwys, 1568; yr oeddent hefyd yn achyddwyr da. Yr oeddynt ymhlith y clerwyr diwethaf yng Nghymru; pan fu Gruffydd farw yn 1666 fe'i galwyd 'y diweddfarw o'r hen feirdd.'

SIÔN PHYLIP (1543? - 1620)

Yr oedd yn byw yn ffermdy Mochres ar 'ynys' Mochres. Yr oedd ei deulu yn disgyn o gyndad o'r enw Palgus. Priododd Catherine, aeres Palgus, leuan le Colier, ac o'r briodas hon, saith genhedlaeth wedi hynny, y deilliodd Siôn Phylip. Cyn 'graddio' yn eisteddfod Caerwys bu Sion dan addysg farddol [William Ll. n.](#) Bu'n athro barddonol i'w frawd Rhisiart, ac efallai i'w feibion Gruffydd a Phylip Siôn. Ysgrifennodd ramadeg barddoniaeth a gedwir yn Pen. MS. 89 a Mostyn MS. 144.

Cyfansoddodd Siôn Phylip yn agos i 200 o gywyddau ac awdlau a llu o englynion. Dyma gyfrif (sydd heb fod yn gwbl gywir, efallai) ohonynt - marwnadau, 66; moliant, 44; serch, 26; gofyn, diolch, etc., 24; duwiol, etc.; 19; ymryson, 10; priodas, 1; amrywiol, 5. Canwyd y marwnadau i feirdd ([William Ll. n.](#), [Siôn Tudur](#), [Simwnt Fychan](#), [Morus Dwyfach](#)), i'r frenhines Elisabeth a'r tywysog Henry, i Eglwyswyr o fri ([Richard Vaughan](#), esgob Llundain; [Nicholas Robinson](#), esgob Bangor; [Dr. Gwynn](#), aelod o [deulu Gwydir](#); a [Dr. William Gruffydd](#)); y mae un farwnad i [Catrin o'r Berain](#) a rhai i aelodau teuluoedd eraill yng Ngogledd Cymru. Canodd Siôn i ganmol [Dr. John Davies](#), [Mallwyd](#), [Theodore Price](#), pennaeth Hart Hall, Rhydychen, [Syr John Salusbury](#), [Llewenni](#), [Syr John Wynn o Gwydir](#) a'i fab hynaf John Wynn, [Simwnt Thelwall o Blas y Ward](#), [Fychaniaid Corsygedol](#), [Syr William Maurice](#), [Clenennau](#), etc. Un cywydd priodas a ganodd - honno ar briodas [Syr Roger Mostyn](#) a Mary, merch [Syr John Wynn, Gwydir](#). O'r cywyddau serch yr un i'r wylan ydyw'r mwyaf adnabyddus.

Ysgrifennodd Siôn Phylip nifer o ganiadau duwiol, a cheisiodd yntau hefyd (fel [Edmwnd Prys](#), etc.) droi rhan o'r Ysgrythur (y salm gyntaf) ar gân. Ceir 'Cywydd y ffenics' yn fynych yn y llawysgrifau. Ymysg y canu amrywiaethol y mae 'Moliant i'r parlwr newydd ym Mhlas y Ward,' 'Cywydd i'r tai coed ac i'r herber yng Ngwedir,' a 'Cywydd i dref Conwy pan oedd y nodau yno.' 'I'r dosbarth hwn y perthyn y cywyddau ymryson - gyda'i frawd Rhisiart ynglyn â [Nannau](#), gyda'i ewythr, [Siôn Dafydd Siencyn](#), gydag [Edmund Prys](#), gyda [Tomos Prys](#), [Plas Iolyn](#), a'r gyfres ddiddorol yn yr ymryson â [Siôn Tudur](#). Bu gan Siôn Phylip ran mewn ymrysonau rhwng [Edmwnd Prys](#) a [William Cynwal](#) a [Huw Machno](#), a honno rhwng [Gruffydd Hafren](#), [Rhisiart Phylip](#), a [Ieuan Tew](#). Ysgrifennodd lu mawr o englynion. Ni chanodd o gwbl yn y mesurau rhyddion yr oedd rhai o'i gyfoedion yn dechrau eu mabwysiadu. Bu'r bardd farw 13 Chwefror 1620 ym Mhwlheli, drwy fodd, pan oedd ar fin croesi oddi yno i Fochres ar ôl bod ar daith glera yn Sir Gaernarfon a sir Fôn, a chladdwyd ef yn Llandanwg, yn ymyl ei gartref. Gadawodd weddw a chwech o blant. Canwyd marwnadau iddo gan [Edmund Prys](#), [Rhisiart Cynwal](#), [Ieuan Llwyd](#), [Gruffydd Hafren](#), [Rowland Fychan](#), a chan ei fab Gruffydd Phylip.

RHISIART PHYLIP (bu farw 1641)

Brawd iau Siôn Phylip. Yr oedd yn ysgrifennu mor gynnar â 1587. Canodd 105 o gywyddau ac awdlau a thros 50 o englynion. Fel ei frawd yr oedd yn glerwr - yn canu'n aml i'r un personau ag y canai Siôn iddynt. Bu'n ymryson â beirdd eraill - ei frawd Siôn, [Rhisiart Cynwal](#), etc. Nid ymddengys iddo ganu marwnad pan fu ei frawd farw yn 1620; yr un modd, pan fu yntau farw yn 1641, nid ei nai Gruffydd Phylip a farwnadodd iddo eithr William Phylip, Hendre Fechan. Yr oedd yn byw yn Llanuwchllyn ychydig cyn iddo farw; dywed William Phylip iddo farw yn y Prys a'i gladdu yn Llanuwchllyn.

Gellir dosbarthu ei ganiadau fel hyn: marwnadau, 32; canmol, 33; gofyn, diolch, etc., 13; serch, 5; cywyddau ymryson, 11; [Nannau](#), 7; amrywiol, 7. I deuluoedd Gogledd Cymru y mae'r marwnadau, eithr ceir un i Dafydd Llwyd ab Ifan, Abermaed, Sir Aberteifi. Canodd farwnad [Catrin o'r Berain](#) ac un i'r frenhines Elisabeth. Canodd gywyddau ac awdlau moliant i aelodau teuluoedd [Gwydir](#), [Corsygedol](#), [Llewenni](#), [Glynllifon](#), [Rhiwedog](#), a [Clenennau](#). Canodd bedwar cywydd i ganmol [Dr. John Davies](#), [Mallwyd](#). Ymysg y cywyddau gofyn ceir un at [Rowland Fychan](#) - 'Cywydd i ofyn newid milgwn'; mewn un arall gofynnir i [John Fychan](#), [Caergai](#), roddi bytheuad i [Lewis Gwyn](#), [Dolau Gwyn](#). Ceir gan y bardd bum caniad serch; 'Awdl o foliant i ferch o Dywyn' ydyw'r fwyaf adnabyddus. Heblaw ei ymryson â'i frawd, bu'n ymryson â [Rhisiart Cynwal](#), a bu iddo ran mewn ymrysonau, etc., rhwng [Tomos Prys](#), [Plas Iolyn](#), [Gruffydd Hafren](#), [Ieuan Tew](#), a [Sion Mawddwy](#). Y mae ganddo gywydd diddorol i'r 'ffiol frech' neu'r 'ffiol oddfyn' a oedd yn perthyn i [Lewis Gwyn](#), [Dolau Gwyn](#). Dywedir yn un o'r Cwrtmawr MSS. iddo ganu 'Dau benniil ar y mesur Gwel yr Adeilad,' ond ni welwyd mo'r cyfeiriad arbennig hwn mewn unrhyw lawysgrif arall. Canodd Rhisiart lu mawr o englynion.

GRUFFYDD PHYLIP (bu farw 1666)

Dyma syniad am gynnwys ei weithiau barddonol: I (a) marwnadau 26, (b) canmol 25, (c) gofyn 4, (d) priodas 6, (e) amrywiol 2; II, caniadau yn y mesurau rhyddion 3; III, englynion. Ei farwnadau gorau ydyw rhai a ganodd ar ôl ei dad (Siôn Phylip) a [Rhisiart Hughes](#), Cefn Llanfair, Lleyn. Y mae'r un i'r [archesgob John Williams](#) yn llai adnabyddus. Marwnadodd hefyd ar ôl ei noddwyr pennaf - [William Fychan, Corsygedol](#), ac [Owen Ellis, Ystumllyn](#). I [William Fychan, Corsygedol](#), y mae rhan fwyaf y cywyddau canmol, ond y mae eraill sydd o ddiddordeb, e.e. dwy i [Dr. John Davies, Mallwyd](#). Yr unig gywydd merch ganddo ydyw ' Cywydd marwnad a wnaeth In [un] o ymddyddan rhwngtho ai gariad y rhon a fase farw ' (Pen. MS. 241). Canodd 17 o ganeuon i [William Fychan, Corsygedol](#), a briododd Ann Nannau yn 1649, ac i eraill o'r teulu. Canodd hefyd i aelodau teulu [Ellis, Ystumllyn a Bronyfoel](#), Eifionydd, yn enwedig i [Owain Ellis](#) a [Marged Elis](#); yng nghyfres [Ystumllyn](#), y mae'r faled - ' Hiraeth y Bardd am Ystumllyn ' (gweler *Caniadau yn y Mesurau Rhyddion*). Gwelir cân arall yn yr un mesur yn *Blodeugerdd*, 1759 - ' Dirifau'r Coler Du.' Y mae yn Pen. MS. 245 ' Cân Gwirod neu Wyl Fair ' y dywedir mai Gruffydd Phylip a'i canodd. Ceir gan Gruffydd hefyd lu o englynion. Yn eu plith y mae ' Englynion a ganwyd pan oeddynt yn bwrw Castell Harlech i lawr,' chwech yn nechrau *Yr Ymarfer o Dduwioldeb* (cyf. [Rowland Fychan](#)) a chwech yn nechrau *Ystyriaethau Drexelius*, 1661. Bu'r bardd farw yn 1666.

PHYLIP JOHN PHYLIP (bu farw c. 1677)

Mab Siôn Phylip ac felly'n frawd i Gruffydd Phylip. Y mae ei ewyllys, a wnaethpwyd ar 9 Medi 1676, ac a brofwyd ar 5 Gorffennaf 1678, yn y Llyfrgell Genedlaethol; ynddi disgrifir ef fel ' Phillip Jon. Phillip of the pish of Llandanock in the county of Merioneth.' Pedwar cywydd o'i waith a gadwyd (hyd y gwyddys) - (a) ' Cowydd i Mr. Gruffyth Van o Gors y Gedol yw groesawu Adref or ysgol '; (b) ' Marwnad Mr. Moris Wynn o Faesneuadd Esquier Enwog '; (c) ' Cowydd Moliant i Owen Wynn o'r Glyn, Esq., pan oedd ef yn Sirif yn Sir Feirionydd '; a (d) ' Marwnad William Phylip Hendre fechan.'

WILLIAM PHYLIP (1579/80? - 1669/70)

Mab Phylip ap Siôn ap Thomas ap Robert, Hendre Fechan, ym mhlwyf Llanddwywe, Sir Feirionnydd, (a fu farw ar 25 Chwefror 1625/6, ac a gladdwyd yn Llanddwywe), a'i wraig Catrin (a fu farw yn 1651 ac a gladdwyd yn Llanddwywe). Bu Ann, gwraig y bardd, farw yn 1653, a'i ferch Elisabeth tua'r un amser, a chladdwyd y ddwy yn Llanaber; eithr yn Llanddwywe y claddwyd William Phylip pan fu farw ar 11 Chwefror 1669/70. Ysgrifennodd y bardd farwnadau i'w dad, i'w fam, i'w wraig, ac i'w ferch. Gadawodd fab, Henry Williams, Hendre Fechan, a roes Mostyn MS. 144, sydd yn llawysgrifen ei dad, i [Gruffydd Fychan, Corsygedol](#), yn 1678. Fel y dengys llawer o'i waith yr oedd William Phylip yn Frenhinwr pybyr. Dywedir iddo ddiodef erledigaeth yng nghyfnod Cromwell oherwydd iddo ysgrifennu marwnad Siarl I ac oherwydd ei gasineb at y sectau crefyddol a gwleidyddol newydd. Y mae'n anodd dywedyd ymha fodd y cafodd ei erlid; mae'n bosibl fod ei ' Englynion ffarwel i Hendre Fechan ' yn cyfeirio nid at unrhyw erledigaeth eithr at ei ymdeimlad bod angau yn agosáu.

Ysgrifennodd 20 o gywyddau, un awdl, tua 35 o garolau a dyriau, a llu mawr o englynion. Y cywyddau mwyaf adnabyddus yw ei farwnad i Siarl I a'r ' Cywydd y Bedd.' Marwnadau ydyw mwyafri ei gywyddau; canodd farwnadau i'w rieni, i'w wraig a'i ferch, i Rhisiart Phylip, Robert Ffoulke, offeiriad Llanfechain, [Huw Nannau](#), [Gruffydd Fychan](#), [Caergai](#), etc. Canodd i groesawu adferiad Siarl II, ac un arall i ganmol y [cyrnol John Owen, Clenennau](#). Ceir pedair cân o'i waith yn *Carolau a Dyriau Duwiol*, 1688, a phump yn *Blodeu-Gerdd*, 1759, er efallai nad William Phylip ydyw awdur ' Carol i'r Gwirod ' sydd yn un o'r pump. Heblaw y rhain y mae 24 o ganiadau eraill, yn y mesurau rhyddion, a briodolir iddo a rhyw ychydig nas gellir bod yn bendant mai efe a'u canodd. Caniadau ar bynciau crefyddol ydyw rhai, ac y mae eraill ar bynciau gwleidyddol, e.e. ' Histori y Bruttaniaid ' sydd yn rhoddi hanes Brutus a'i ddyfodiad i Brydain. Yn Pen. MS. 115 ceir ' Carol at Gruffydd Phylip am Gatea. ' Yn Bangor MS. 401 ceir carolau a dyriau yn Saesneg, llawer ohonynt yn llaw William Phylip. Gellir bod yn weddol bendant ynglyn â ' Karol Wyl Fair wrth wirotia ar fesur byrr ' sydd yn Bangor MS. 401 mai William Phylip a'i canodd, ond nid yw'n sicr mai ef a wnaeth y garol gyffelyb sydd yn *Blodeu-gerdd*, 1759. Y mae ei englynion yn niferus. Ceir rhai ganddo ynglyn â gwarchae a chwymp castell Harlech, englynion marwnad ' Coronel Wil: Wyn o Ddyffryn Melai ' (a laddwyd yn 1643), ' Englynion o gwyn pan fu Rowlant Fychan Caergai yn y Rhyfel ' a thri arall ynglyn â ffawd [Caergai](#) ac [Ynysmaengwyn](#), pump o ' Englynion Croeso i Arglwydd Mawddwy,' englynion ' Pan dorwyd pen y Brenin,' ac ' Englynion i'r Rowndied'. Y mae gan y bardd lawer o englynion i ferched a llu o rai o natur grefyddol. Ceir englynion ganddo yn nechrau *Ystyriaethau Drexelius*, 1661. Gelwir yr ' Englynion ffarwel i hendre fechan ' yn ' Englynion ar henaint ' mewn rhai MSS. Yn B.M. Add. MS. 14953 y mae gramadeg Cymraeg - y rhan fwyaf ohono yn llaw William Phylip.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

William Ll. Davies, '[Phylipiaid Ardudwy; A Survey and a Summary](#),' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, xlii, 155-268, a'r cyfeiriadau a roddir yno

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Siôn Phylip](#)

Erthygl Wikipedia: [Rhisiart Phylip](#)

Erthygl Wikipedia: [Gruffudd Phylip](#)

Erthygl Wikipedia: [Wiliam Phylip](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

